**SLIP CYWIRIAD**

Teitl: Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil: Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad

Sesiwn: 2022−23

CP 897

ISBN: 978-1-5286-4359-7

**Cywiriad**:

Geiriad y testun gwreiddiol:

5. Yn unol â'r weledigaeth a nodir uchod, bydd y polisi o gyfryngu integredig yn berthnasol i bob hawliad bach yn y Llys Sirol (y rhai sy'n cael eu prisio dan £10,000 fel arfer) a gyhoeddir dan weithdrefn safonol Rhan 7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.[7] Mae hyn yn cynnwys amodau tai a hawliadau am anafiadau personol a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain. Ni fydd y polisi'n berthnasol i hawliadau a gychwynnir dan weithdrefnau ansafonol, megis hawliadau am feddiannau, a gychwynnir dan weithdrefn Rhan 55.[8] Mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo gan farn llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod pob achos Rhan 7 safonol yn addas ar gyfer cyfryngu – felly ni fyddwn yn darparu ar gyfer unrhyw eithriadau math o achos o fewn hawliadau Rhan 7 o'r gofyniad i gyfryngu. Bydd y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu diwygio er mwyn gallu gweithredu'r polisi. Byddwn yn dechrau drwy integreiddio cyfryngu ar gyfer pob hawliad penodol (anghydfodau am swm penodol o arian) yn y Senedd hon, gan weithio tuag at integreiddio cyfryngu ar draws pob achos hawliadau bach safonol.

Geiriad y testun newydd:

5. Yn unol â'r weledigaeth a nodir uchod, bydd y polisi o gyfryngu integredig yn berthnasol i bob hawliad bach yn y Llys Sirol (y rhai sy'n cael eu prisio dan £10,000 fel arfer) a gyhoeddir o dan weithdrefn safonol Rhan 7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil,[7] yn ogystal ag amodau tai a hawliadau am anafiadau personol a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain. Ni fydd y polisi'n berthnasol i hawliadau penodol a gychwynnir o dan weithdrefnau ansafonol, megis hawliadau am feddiannau, a gychwynnir o dan weithdrefn Rhan 55. Mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo gan farn llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod pob achos Rhan 7 safonol ac achos iawndal yn addas ar gyfer cyfryngu; felly ni fyddwn yn darparu hawliadau eithriadau o'r gofyniad i gyfryngu ar gyfer y math hyn o achosion. Bydd y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu diwygio er mwyn gallu gweithredu'r polisi. Byddwn yn dechrau drwy integreiddio cyfryngu ar gyfer pob hawliad penodol (anghydfodau am swm penodol o arian) yn y Senedd hon, gan weithio tuag at integreiddio cyfryngu ar draws pob achos hawliadau bach.

Dyddiad y cywiriad: 1 Medi 2023

# Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil

## Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2023

CP 897

OGL

© Hawlfraint y Goron **2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4359-7

E02946684 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil** **2**
Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad 2
**Cynnwys** **1**
**Cyflwyniad a manylion cyswllt** **2**
Cwynion neu sylwadau 2
**Rhagair** **3**
**Cefndir** **5**
**Crynodeb o'r ymatebion** **7**
**Ymateb y Llywodraeth** **8**
Integreiddio cyfryngu ar gyfer anghydfodau hawliadau bach 8
Cryfhau'r sector cyfryngu sifil 13
**Ymatebion i Gwestiynau Penodol** **15**
**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** **27**
Asesiad Effaith 27
Cydraddoldeb 27
Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg 30
**Casgliad a'r camau nesaf** **31**
**Egwyddorion ymgynghori** **32**
**Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr** **33**

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori:
- crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau yn y papur ymgynghori
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â **disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk** yn y cyfeiriad isod:

**Dispute Resolution Team**
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
**E-bost**: disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

# Rhagair

Mae’r ffordd rydym yn datrys anghydfodau cyfreithiol yn esblygu ar gyfer yr oes fodern. Ar draws y llywodraeth, rydym yn datblygu dulliau arloesol a fydd yn grymuso pobl i ddatrys eu hanghydfodau’n gyflym ac yn effeithiol heb fod angen gwrandawiad llys.

Eleni, fe wnaethom lofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gytundebau Setliad Rhyngwladol sy’n deillio o Gyfryngu (Efrog Newydd, 2018), a fydd yn atgyfnerthu sector cyfryngu £17.5 biliwn y DU ac yn tanlinellu ein rôl flaenllaw mewn datrys anghydfodau masnachol rhyngwladol.[1] Bydd y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn cryfhau’r broses o oruchwylio’r cyfleoedd datrys anghydfodau sydd ar gael i ddefnyddwyr; cynllun a fyddai wedi cael ei gyfyngu’n fwy tra yn yr UE.[2] Bydd y Bil Rhentwyr (Diwygio) yn gwella’r broses datrys anghydfodau i denantiaid drwy fynnu bod pob landlord preifat yn ymuno â chynllun newydd Ombwdsmon y Sector Rhentu Preifat; rydym yn ystyried a all yr Ombwdsmon newydd gynnig cyfryngu i landlordiaid preifat drwy eu gwasanaethau i aelodau hefyd.[3] Fel y nodir yn SEND a’r *cynllun gwella darpariaeth amgen*, byddwn yn edrych ar ddulliau cyfryngu i wella profiad rhieni mewn anghydfodau ynghylch anghenion addysgol arbennig ac anabledd.[4] Ac mae’r Llywodraeth wedi ymgynghori ar sicrhau bod cyfryngu teuluol yn cael ei ddefnyddio cyn i rieni ymuno â phroses llys a allai fod yn hir ac yn wrthwynebus.[5]

Mae ein cynlluniau ar gyfer *cynyddu’r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil* yn gyfraniad sylfaenol arall at y trawsnewid hwn yn y ffordd yr ydym yn datrys ein hanghydfodau. Yr wyf yn hynod ddiolchgar am yr holl ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad, y gefnogaeth i’n gweledigaeth, a’r cyfoeth o awgrymiadau adeiladol ynghylch y ffordd orau o weithredu ein diwygiadau.

Yn dilyn yr adborth hwn, mae’n bleser gennyf gadarnhau bwriad y Llywodraeth i integreiddio cyfryngu’n llawn ym mhroses y llys ar gyfer hawliadau sifil sy’n werth hyd at £10,000. Byddwn yn ceisio gwneud cyfryngu yn gam hanfodol ar gyfer pob hawliad am symiau penodol o arian, sy’n cyfrif am 80% o hawliadau bach, yn ystod y Senedd hon. I gyflawni hyn, byddwn yn adeiladu ar y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach rhagorol, sy’n cael ei redeg gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF – gwasanaeth sy’n rhad ac am ddim i bawb, ac sydd eisoes yn helpu dros hanner y bobl sy’n dod drwy ei ddrysau i

---

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/the-singapore-convention-on-mediation/outcome/government-response-to-the-consultation-on-the-united-nations-convention-on-international-settlement-agreements-resulting-from-mediation-new-york-20

[2] https://bills.parliament.uk/bills/3453


[3] https://www.gov.uk/guidance/private-rented-sector-ombudsman-renters-reform-bill

[4] https://www.gov.uk/government/publications/send-and-alternative-provision-improvement-plan

[5] https://www.gov.uk/government/consultations/supporting-earlier-resolution-of-private-family-law-arrangements

ddod i benderfyniad o fewn wythnosau ar ôl dechrau eu hachos. Rydym hefyd wedi ymrwymo i integreiddio cyfryngu yn nhaith y llys ar gyfer hawliadau sifil gwerth uwch, ac edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio â'r sector cyfryngu sifil wrth i ni gynllunio a datblygu'r polisi hwn.

Nid yw'r diwygiadau hyn yn ymwneud â chyfyngu ar fynediad pobl i'r llysoedd, ond ag ehangu eu llwybrau i gael iawn. Nid dim ond system gyfiawnder fwy effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yw'r nod y tu ôl i'r newid hwn; mae'n ganlyniadau cyflymach a gwell i'r bobl sy'n ei defnyddio. P'un ai a yw defnyddwyr y llys yn unigolion neu'n fusnesau, a yw eu hanghydfod yn ymwneud â gwrthdaro â chymydog neu anghytundeb ynghylch telerau contract, mae'r baich ymgyfreitha'n sylweddol. Lle gallwn helpu i leihau'r baich hwnnw drwy helpu pobl i ddod i benderfyniad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr, credaf y dylem wneud hynny.



**Yr Arglwydd Bellamy CB**

# Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori *Cynyddu’r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil* ar 26 Gorffennaf 2022.

Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynnig y Llywodraeth i integreiddio sesiwn cyfryngu am ddim a ddarperir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF) i broses y Llys Sirol ar gyfer partïon sy’n ymwneud ag anghydfodau sifil sy’n werth hyd at £10,000. Mae ‘partïon’ yn cyfeirio at y bobl sy’n cychwyn neu’n amddiffyn hawliad.

Roedd y papur ymgynghori hefyd yn dangos uchelgais y Llywodraeth i integreiddio cyfryngu mewn prosesau hawliadau gwerth uwch. Byddai hyn yn golygu cyfeirio partïon at gyfryngwyr allanol y tu allan i’r gwasanaeth llys. Felly, roedd y papur ymgynghori hefyd yn gwahodd sylwadau ar sut y gall y llywodraeth gefnogi a chryfhau’r sector cyfryngu sifil allanol.

Roedd y cynigion hyn yn adeiladu ar uchelgeisiau’r Llywodraeth a nodir yn ‘Galwad am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr’, a gyhoeddwyd yn 2021, i gynyddu’r defnydd o ddulliau datrys anghydfodau ar draws y llysoedd sifil a’r llysoedd teulu a’r tribiwnlysoedd. Drwy ddatrys anghydfod, rydym yn golygu datrys anghydfod cyfreithiol heb benderfyniad barnwrol, boed cyn neu ar ôl i achos cyfreithiol gael ei ffeilio gyda llys.

Yn benodol, yn y papur ymgynghori roeddem yn gofyn yn benodol am farn ar y canlynol:

- esemptiadau posibl rhag cyfryngu integredig ar gyfer hawliadau bach;
- sut i asesu ymgysylltiad digonol â chyfryngu;
- cosbau am beidio â chymryd rhan mewn cyfryngu;
- profiad gyda Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach GLlTEF;
- darparu gwybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach;
- cefnogaeth i barti agored i niwed;
- yr angen am achrediad cryfach ar gyfer y sector cyfryngu;
- cyrff achredu posibl;
- gwerth Safon genedlaethol ar gyfer cyfryngu; ac,
- esemptiadau achrediad cyfryngu ar gyfer gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 4 Hydref 2022.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi ymateb cyffredinol y Llywodraeth i’r ymgynghoriad, mae’n crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad, ac mae’n amlinellu sut y dylanwadodd yr ymatebion hyn ar ddatblygiad pellach polisïau i integreiddio cyfryngu yn y broses llys a chryfhau’r sector cyfryngu sifil.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi maes o law.

Mae'r papur ymateb Cymraeg i'w gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/increasing-the-use-of-mediation-in-the-civil-justice-system

Ceir rhestr o'r ymatebwyr a gytunodd i gael eu rhestru yn **Atodiad A.**

# Crynodeb o’r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 134 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Mae’r tabl hwn yn nodi nifer yr ymatebwyr fesul sector:

| Sector | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| **Y Proffesiwn Cyfryngu neu Ddatrys Anghydfod** | 35 | 26% |
| **Y Proffesiwn Cyfreithiol** | 29 | 22% |
| **Sefydliadau Cynrychioli** | 25 | 19% |
| **Aelodau o'r Cyhoedd** | 16 | 12% |
| **Academyddion** | 7 | 5% |
| **Sector Cynghori** | 5 | 4% |
| **Y Farnwriaeth** | 2 | 1% |
| **Llywodraeth Leol** | 2 | 1% |
| **Arall** | 13 | 10% |

Ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder dri chyfarfod bwrdd crwn hefyd er mwyn deall safbwyntiau rhanddeiliaid yn well.

Mae’r Llywodraeth yn ddiolchgar i’r holl ymatebwyr am eu hymgysylltiad.

# Ymateb y Llywodraeth

## Integreiddio cyfryngu ar gyfer anghydfodau hawliadau bach

1. Yn yr ymateb hwn, mae’r Llywodraeth yn cadarnhau ein bwriad i integreiddio cyfryngu fel rhan hanfodol o broses y llys ar gyfer hawliadau sifil gwerth is, fel y nodir yn ein hymgynghoriad ar *Gynyddu’r defnydd o gyfryngu yn y system gyfiawnder sifil.* Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a gawsom ynghylch y cynnig hwn a’r cyfoeth o awgrymiadau adeiladol ynghylch sut y dylai weithredu’n ymarferol.

2. Wrth bennu manylion y polisi, mae’r Llywodraeth wedi cael ei harwain gan yr egwyddor gyffredinol (a gefnogir gan lawer o ymatebwyr) o ddod â manteision cyfryngu i gynifer o bobl â phosibl. Yn hytrach na chael ei ystyried yn ychwanegyn dewisol – fel rhywbeth ar wahân i, ac yn llai pwysig na, elfennau eraill o broses y llys – bydd dyluniad y diwygiad hwn yn golygu bod cyfryngu’n dod yn gam safonol yn y rhan fwyaf o achosion hawliadau bach.

3. Mae dyluniad y polisi hefyd wedi cael ei lywio gan lwyddiant Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach GLlTEF – gwasanaeth rydyn ni’n credu y dylai pob parti mewn achos hawliadau bach gael cymorth i’w ddefnyddio. Fel y dangosodd *Adroddiad Gwerthuso Cyfryngu Optio Allan* GLlTEF, mae cyfraddau setlo o fewn y gwasanaeth yn gyson uwch na 50%.[6] Ar ben hynny, mae’r partïon sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn gwerthfawrogi’r setliad cyflym, yn ystyried y penderfyniad yn deg, ac yn gadarnhaol ynghylch sgiliau’r cyfryngwyr sy’n gweithio yn y llys. O dan ein cynlluniau, bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ehangu a’i wella’n sylweddol, wrth i’r polisi gael ei roi ar waith, gyda gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal i lywio gwelliannau posibl.

4. Ein nod yw sicrhau y bydd pob parti wedi manteisio ar y cyfle i geisio datrys eu hachos mewn ffordd gydsyniol, cyn dechrau’r cyfnod hir a llawn straen o aros am wrandawiad llys. Ar ben hynny, bod ganddynt y wybodaeth a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn y broses hon yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd setlo drwy gyfryngu yn parhau’n wirfoddol, a bydd pob parti sydd angen gwrandawiad gerbron barnwr i ddatrys eu hanghydfod yn gallu cael un. Credwn y bydd manteision y diwygiad hwn yn sylweddol: bydd mwy o bartïon yn gallu datrys eu hanghydfod yn gyflym a heb faich costus ymgyfreitha, a bydd amser barnwyr yn cael ei optimeiddio.

[6] https://www.gov.uk/government/publications/hmcts-opt-out-mediation-evaluation/hmcts-opt-out-mediation-evaluation-report

## Cymhwyso'r polisi

5. Yn unol â'r weledigaeth a nodir uchod, bydd y polisi o gyfryngu integredig yn berthnasol i bob hawliad bach yn y Llys Sirol (y rhai sy'n cael eu prisio dan £10,000 fel arfer) a gyhoeddir o dan weithdrefn safonol Rhan 7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil,[7] yn ogystal ag amodau tai a hawliadau am anafiadau personol a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain. Ni fydd y polisi'n berthnasol i hawliadau penodol a gychwynnir o dan weithdrefnau ansafonol, megis hawliadau am feddiannau, a gychwynnir o dan weithdrefn Rhan 55. Mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo gan farn llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod pob achos Rhan 7 safonol ac achos iawndal yn addas ar gyfer cyfryngu; felly ni fyddwn yn darparu hawliadau eithriadau o'r gofyniad i gyfryngu ar gyfer y math hyn o achosion. Bydd y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu diwygio er mwyn gallu gweithredu'r polisi. Byddwn yn dechrau drwy integreiddio cyfryngu ar gyfer pob hawliad penodol (anghydfodau am swm penodol o arian) yn y Senedd hon, gan weithio tuag at integreiddio cyfryngu ar draws pob achos hawliadau bach.

6. Ni fyddwn chwaith yn darparu ar gyfer esemptiadau ar sail unigol. Fel y nododd ymatebwyr, byddai caniatáu ar gyfer esemptiadau unigol yn cymhlethu proses y llys yn ddiangen, gan ofyn am amser a chostau ychwanegol i asesu a yw cais parti am esemptiad yn ddilys. Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth yn credu y byddai risg sylweddol y byddai galluogi esemptiadau unigol yn creu diwylliant o osgoi a fyddai'n tanseilio ein hamcan cyffredinol i safoni cyfranogiad mewn cyfryngu.

## Fformat cyfryngu a chefnogaeth i bartïon

7. Rydym yn cydnabod, mewn system lle mae angen cymryd rhan mewn cyfryngu, y dylai'r baich o fynychu'r cyfryngu hwn fod yn ysgafn. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid darparu digon o gymorth priodol i alluogi pob parti i gael mynediad at gyfryngu a chymryd rhan ynddo'n ddiogel ac yn effeithiol. Credwn fod model cyflawni presennol y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn cyflawni'r gofynion hyn.

8. Bydd y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn parhau i gynnig gwasanaeth cyfryngu am ddim. Bydd apwyntiadau safonol yn parhau i fod yn awr o hyd, a fydd yn cael eu cynnal dros y ffôn. Fel y nodwyd yn *Adroddiad Gwerthuso Cyfryngu Optio Allan* GLITEF, mae defnyddwyr Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn gadarnhaol nid yn unig am y cyfryngwyr sy'n gweithio yn y llys ac sy'n darparu'r gwasanaeth, ond hefyd am y fformat ffôn.[8] Mae'r ymchwil hwn hefyd yn dangos bod fformat gwennol y

---

[7] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/part07.

[8] https://www.gov.uk/government/publications/hmcts-opt-out-mediation-evaluation/hmcts-opt-out-mediation-evaluation-report

Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn helpu i liniaru anghydbwysedd pŵer, gan fod y partïon yn hoffi'r elfen o wahaniad oddi wrth y parti arall y mae'n ei ddarparu.

9. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau y bydd partïon yn gallu cael gafael ar yr un addasiadau rhesymol ag y byddent mewn gwrandawiad llys, gan gynnwys: ymestyn yr apwyntiad cyfryngu; cynnal yr apwyntiad wyneb yn wyneb; neu ddefnyddio cyfieithydd. Ar ben hynny, bydd GLlTEF yn adeiladu ar y darpariaethau presennol hyn, yn ogystal â'u polisi diogelu ehangach, i ddatblygu protocol diogelu a bregusrwydd yn benodol ar gyfer cyfryngu.[9] Bydd y protocol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer dod â'r broses gyfryngu i ben os bydd pryderon ynghylch diogelu neu os na fydd addasiadau rhesymol eraill ar gael. Os bydd angen, gellir dod â'r broses i ben cyn yr apwyntiad. Bydd y protocol hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cysylltu partïon â gwasanaethau cymorth allanol lle mae risg bosibl o niwed.

10. Yn unol â llawer o'r awgrymiadau gan ymatebwyr, byddwn hefyd yn gweithio i wella'r wybodaeth a'r arweiniad a roddir i bartïon wrth iddynt symud ymlaen drwy eu taith yn y llys. Bydd hyn yn tynnu sylw at fanteision cymryd rhan mewn cyfryngu ac yn annog partïon i fanteisio ar y cyfle i ddatrys eu hachos lle bo hynny'n bosibl. Fel yr argymhellwyd yn *Adroddiad Gwerthuso Cyfryngu Optio Allan* GLlTEF, byddwn yn ehangu'r gefnogaeth i bartïon i helpu i baratoi ar gyfer eu hapwyntiad a deall beth i'w ddisgwyl. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu mewn amrywiaeth ehangach o fformatau. Er enghraifft, mewn ymateb i geisiadau gan ymatebwyr, mae GLlTEF eisoes wedi cynhyrchu fideo rhagarweiniol am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach.[10] Bydd y canllawiau'n nodi'n glir iawn nad oes rheidrwydd ar bartïon i setlo eu hachos os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny a bod eu hawl i wrandawiad llys yn parhau.

### Asesu ymgysylltiad partïon â chyfryngu

11. Bydd disgwyl i bartïon gymryd rhan mewn cyfryngu yn ddidwyll. Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn argymell dull a oedd yn caniatáu i gyfryngwyr asesu a oedd partïon wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r broses gyfryngu. Roedd hyn yn cael ei weld fel ffordd o liniaru'r posibilrwydd bod partïon yn methu ag ymgysylltu'n wirioneddol â chyfryngu fel cyfrwng i hwyluso datrysiad. Fodd bynnag, teimlai eraill y byddai'r dull hwn yn torri cyfrinachedd y cyfryngu, ac o bosibl yn niweidio hyder partïon yn y broses. At ei gilydd, mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r unig ofyniad ar hyn o bryd fydd mynychu'r apwyntiad cyfryngu a drefnwyd, er y gallwn adolygu'r penderfyniad hwn ar ôl gwerthuso'r polisi.

### Diffyg cydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu

---

[9] https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-in-hmcts/hmcts-safeguarding-policy

[10] https://www.youtube.com/watch?v=rR-Oe9R5Nsk

12. Os na fydd parti'n dod i'w apwyntiad cyfryngu sydd wedi'i drefnu, bydd barnwr yn gallu rhoi sancsiwn addas yn ôl ei ddisgresiwn. Gall hyn fod yn ddileu, sy'n golygu y gall y barnwr ddyfarnu'n awtomatig o blaid y parti arall. Neu gall fod yn gosb cost, sy'n golygu y gall y barnwr orchymyn i'r parti nad yw'n cydymffurfio dalu am ran neu'r cyfan o gostau cyfreithiol neu gostau llys y parti arall (hyd yn oed os yw'r dyfarniad yn gyffredinol o blaid y parti nad yw'n cydymffurfio). Fel y dywedodd amryw o ymatebwyr, heb sancsiynau ystyrlon, mae cyfryngu integredig yn annhebygol o fod yn effeithiol. Gan y bydd cyfryngu yn rhan o broses safonol y llys, dylai sancsiynau fod yn unol â methiannau eraill i gydymffurfio â rheolau'r llys. Bydd barnwyr yn gallu ystyried amgylchiadau lliniarol wrth benderfynu a ddylid rhoi sancsiynau am beidio â bod yn bresennol.

**Proses ar gyfer hawliadau bychain yn y dyfodol**

**Problem Gyfreithiol**

Mae gan unigolyn neu gwmni (neu 'hawlydd') anghydfod gydag unigolyn neu fusnes arall (y 'diffynnydd') ac mae'n credu bod ei hawliau cyfreithiol wedi'u torri. Nid yw'n gallu datrys y broblem ei hun.

↓

**Hawliad**

Mae'r hawlydd yn penderfynu dechrau achos cyfreithiol yn erbyn y diffynnydd drwy ffeilio hawliad gyda'r Llys Sirol.

↓

**Amddiffyniad**

Pan fydd y diffynnydd yn anghytuno â'r hawliad, bydd yn ffeilio amddiffyniad gyda'r llys yn nodi ei ochr ef o'r achos. Os na fydd y diffynnydd yn gwneud hyn, bydd yr hawliad yn mynd yn syth i ddyfarniad trwy ddiffyg ar gais yr hawlydd.

↓

**Holiadur Cyfarwyddiadau**

Ar ôl i'r amddiffyniad gael ei ffeilio, bydd yr achos yn cael ei ddyrannu dros dro i lwybr hawliadau bach y llys (a ddefnyddir fel arfer ar gyfer hawliadau sy'n werth llai na £10,000) a bydd partïon y mae eu hawliad yn dod o fewn Rhan 7 Rheolau'r Llys yn cael gwybod mai cyfryngu fydd y cam nesaf ym mhroses y llys.

Gofynnir i bartïon hefyd ddychwelyd holiadur (ar-lein neu ar bapur) sy'n gofyn am fanylion tystiolaeth arbenigol; yn gofyn am ddyddiadau i'w hosgoi ar gyfer gwrandawiad yn ogystal ag ar gyfer cyfryngu; ac sy'n eu galluogi i dynnu sylw at unrhyw wendidau a gofyn am addasiadau rhesymol.

↓

**Achos yn symud ymlaen i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach**

Caiff cyfryngu ei integreiddio ar gyfer pob hawliad Rhan 7. Bydd apwyntiadau cyfryngu yn parhau i gael eu cynnig o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach dderbyn manylion yr achos.

↓

**Cadarnhau apwyntiad**

Bydd partïon yn cael cadarnhad o'u ffenestr apwyntiad 3 awr lle bydd y sesiwn gyfryngu dros y ffôn awr o hyd yn cael ei chynnal. Bydd amser yr apwyntiad yn osgoi'r dyddiadau a nodir fel rhai nad ydynt ar gael ar yr holiadur cyfarwyddiadau. Bydd partïon hefyd yn cael arweiniad ar beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall partïon ofyn am gael aildrefnu eu hapwyntiad. Byddwn yn gweithio gyda phartïon i drefnu unrhyw addasiadau rhesymol neu gymorth ychwanegol arall y gofynnir amdano.

↓

**Cyfryngu**

Yn yr apwyntiad, bydd y cyfryngwr yn ffonio pob parti ac yn siarad â nhw yn eu tro. Mae hyn yn golygu bod y partïon yn siarad â'r cyfryngwr yn unig, nid â'i gilydd. Bydd y cyfryngwr yn gwneud cyflwyniadau, yn gwrando ar bryderon a cheisiadau pob parti, ac yn archwilio meysydd lle gellid cyfaddawdu. Maent yn annog partïon i edrych ar eu hachos nid fel brwydr i'w hennill, ond fel problem i'w datrys. Os bydd y cyfryngwr, am unrhyw reswm, yn teimlo bod y broses yn rhoi parti agored i niwed mewn perygl, bydd yn dod â'r cyfryngu i ben.

↓

**Canlyniad cyfryngu**

Pan fydd yr hawlydd a'r diffynnydd yn cytuno ar setliad, caiff hyn ei ysgrifennu fel cytundeb setlo ffurfiol sy'n gyfreithiol rwymol ac wedi'i gofrestru gyda'r llys. Os bydd un o'r partïon yn methu â gweithredu fel y cytunwyd, gall y parti arall ofyn i'r llys ymyrryd.

Os na fydd yr hawlydd a'r diffynnydd yn dod i gytundeb, bydd yr achos yn parhau i wrandawiad gerbron barnwr.

Os nad yw parti wedi mynd i'w apwyntiad cyfryngu sydd wedi'i drefnu, bydd yn cael ei gofnodi fel rhywun sydd wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu. Bydd barnwr yn gallu defnyddio sancsiynau sy'n briodol ac yn gyfreithlon yn ei farn ef, gan ystyried amgylchiadau lliniarol. Gallai fod yn ofynnol i'r parti nad yw'n cydymffurfio dalu am rai o gostau cyfreithiol neu gostau llys y parti arall; neu gall barnwr benderfynu dileu (diystyru) hawliad neu amddiffyniad parti, gan arwain at dyfarniad drwy ddiffyg o blaid y parti arall.

## Cryfhau'r sector cyfryngu sifil

13. Er bod y Llywodraeth yn ehangu'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach i ddarparu gwasanaeth cyfryngu mewnol am ddim ar gyfer hawliadau bach, ein nod hefyd yn ddiweddarach yw integreiddio cyfryngu wrth ddatrys hawliadau gwerth uwch yn y Llys Sirol: yn y trac cyflym (£10,000-25,000) a'r aml-drac (dros £25,000). Bydd integreiddio cyfryngu mewn hawliadau gwerth uwch yn golygu cyfeirio partïon at gyfryngwyr allanol, yn hytrach na'r rheini a gyflogir gan GLITEF. I baratoi ar gyfer hyn, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ffyrdd o gryfhau hyder yn y sector cyfryngu yn unol â'i rôl gynyddol ganolog wrth ddatrys anghydfodau. Fel yr awgrymwyd gan lawer o ymatebwyr, byddai partïon yn fwy tebygol o roi cynnig ar gyfryngu ystyrlon a phrofi ei fanteision os ydynt yn ymddiried yn eu cyfryngwr. Felly, bydd angen i'r safonau ar gyfer cyfryngwyr mewn achosion a gyfeirir gan y llys fod yn gadarn ac yn glir er mwyn hyrwyddo'r ymddiriedaeth honno, yn enwedig ar gyfer y nifer fawr o bartïon a fydd yn rhoi cynnig ar gyfryngu am y tro cyntaf.

14. Rydym yn cydnabod bod gan y sector cyfryngu sifil eisoes safonau ar waith drwy ei system achredu gwirfoddol. Dan y trefniadau hyn, mae llawer o gyfryngwyr yn dewis cofrestru gydag un o nifer o gyrff proffesiynol, fel y Cyngor Cyfryngu Sifil a Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr (CIArb). Mae'r cyrff proffesiynol hyn yn gosod gofynion aelodaeth sylfaenol ar gyfer eu haelodau, gan sicrhau eu bod yn dilyn cod ymddygiad a bod ganddynt ddigon o hyfforddiant, profiad, yswiriant a phroses gwyno. Mae'r trefniant hwn yn achredu'r cyfryngwr i'r safon a bennir gan y corff proffesiynol. Mae'r cyrff hefyd yn goruchwylio eu haelodau, gan gynnwys ymchwilio i gwynion pan fydd prosesau mewnol cyfryngwr wedi dod i ben.

15. O ystyried cryfder yr hunanreoleiddio presennol hwn, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai rheoleiddio statudol ar y sector cyfryngu sifil cyfan yn anghymesur. Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr bryderon gwirioneddol y gallai parti sy'n cael ei gyfeirio at wasanaeth cyfryngu allanol gan y llys, yn enwedig ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, ganfod bod y farchnad yn ddryslyd ac yn anfwriadol yn defnyddio cyfryngwyr sydd heb hyfforddiant, profiad, neu amddiffyniadau fel yswiriant a gweithdrefnau delio â chwynion. Gallai hyn arwain at ganlyniadau gwrthnysig i bartïon ac erydu ymddiriedaeth mewn dulliau integredig o ddatrys anghydfod.

16. Felly, er mwyn gwneud cyfryngu integredig mewn anghydfodau gwerth uwch yn llwyddiant, rhaid inni sicrhau y bydd y partïon hynny hefyd yn gallu manteisio ar gyfryngu o safon. Mae hefyd yn hanfodol y bydd partïon yn gallu deall y safonau y bydd y cyfryngwyr hynny'n eu bodloni.  Credwn fod y system hunanreoleiddio bresennol mewn sefyllfa dda i wella ei rôl a gweithio gyda'r llywodraeth i hwyluso cyflwyno cyfryngu integredig i hawliadau gwerth uwch drwy hyrwyddo safonau a chysondeb yn y sector ymhellach.

17. Rydym yn cydnabod bod cyfryngu yn broffesiwn sgiliedig, sy'n gofyn am arbenigedd wrth ddatrys anghydfodau mewn modd cydweithredol ac adeiladol. Mae'n briodol felly bod cyfryngwyr sy'n cyfryngu achosion a gyfeirir gan y llys yn gweithio yn unol â safonau moesegol ac arferion gorau sydd wedi'u teilwra i'r proffesiwn hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio fel cyfryngwyr, fel ymarferwyr cyfreithiol, eisoes yn glynu wrth ofynion rheoleiddio mewn agweddau eraill ar eu bywydau proffesiynol. Byddwn yn parhau i adolygu sut gellid ystyried y gofynion rheoleiddio presennol hyn at ddibenion goruchwylio cyfryngu integredig ar yr un pryd â sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer cyfryngu ar waith.

18. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector i wella safonau a gwella hyder y cyhoedd wrth ddarparu gwasanaethau cyfryngu sifil wrth i ni baratoi i gyflwyno cyfryngu integredig i hawliadau gwerth uwch. Er ein bod yn canolbwyntio'n gyntaf ar gyfryngu, byddwn yn parhau i archwilio'r rôl ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau integredig eraill wrth ddatrys anghydfodau sifil gwerth uwch.

# Ymatebion i Gwestiynau Penodol

**Cwestiwn 1:** Rydym yn cynnig cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer pob hawliad bach (y rheini sy'n werth llai na £10,000 fel arfer). Ydych chi'n meddwl y dylid eithrio unrhyw fathau o achosion o'r gofyniad i fynychu apwyntiad cyfryngu? Os felly, pa fathau o achosion a pham?

19. Teimlai llawer o'r ymatebwyr na ddylai unrhyw fathau o achosion gael eu heithrio o'r gofyniad i gyfryngu. I rai ymatebwyr, roedd hyn yn deillio o'r gred – fel egwyddor ac ar sail eu profiad – y gellid cyfryngu pob math o achos. Tynnodd eraill sylw at y ffaith bod creu proses esemptiadau yn debygol o achosi cymhlethdod ac annog partïon i beidio â chymryd rhan. Nodwyd bod y broses o ddyrannu achosion i'r trac hawliadau bychain eisoes yn hidlo'r rhan fwyaf o fathau o achosion gyda nodweddion arbennig. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y dylai fod yn flaenoriaeth i'r llysoedd annog partïon i'r holl achosion sy'n weddill i osgoi amser, straen a chost ymgyfreitha a wrthwynebir drwy geisio cyfryngu eu hanghydfod.

20. Lle'r oedd ymatebwyr yn awgrymu y gellid cael esemptiadau, y math o achos a grybwyllwyd amlaf fel ymgeisydd ar gyfer esemptiad oedd anaf personol – yn enwedig hawliadau am ddamweiniau traffig ar y ffyrdd (RTA) a wnaed drwy'r porth Hawliadau Anafiadau Swyddogol (OIC). Pwysleisiodd ymatebwyr fod y partïon, yn y rhan fwyaf o hawliadau am anafiadau personol, yn cael eu cynrychioli ac y bydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn ceisio datrys yr anghydfod drwy gonsensws cyn cychwyn achos llys. Ar ben hynny, ar gyfer hawliadau am ddamweiniau ffordd, nodwyd bod porth OIC eisoes yn darparu prosesau ffurfiol i bartïon negodi ac osgoi'r angen am ymgyfreitha cyn cychwyn hawliad. O ystyried hyn, teimlai rhai ymatebwyr y byddai cyfryngu integredig ar ôl i bartïon gyflwyno eu hawliad yn ddiangen ac yn aneffeithlon. Codwyd pryderon tebyg gan ymatebwyr ynghylch hawliadau a gychwynnwyd drwy'r Porth Hawliadau Iawndal. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai fod gwerth mewn integreiddio cyfryngu o fewn y pyrth hyn yn y dyfodol. Mewn perthynas â hawliadau am ddamweiniau ffordd, teimlai rhai ymatebwyr hefyd y dylid esemptio hawliadau ynghylch llogi credyd (ynghylch hawlio cost cerbyd dros dro yn lle cerbyd arall os bydd damwain ffordd heb fai), gan fod yr hawliadau hyn yn aml yn gymhleth iawn, a bod angen datgelu ac archwilio'r dystiolaeth berthnasol yn llawn ac yn fanwl.

21. Yn ogystal ag anaf personol, awgrymwyd amrywiaeth o fathau eraill o achosion gan ymatebwyr fel rhai priodol i'w esemptio. Y rhai mwyaf cyffredin oedd hawliadau'n ymwneud â thai a pharcio. Mewn perthynas â hawliadau parcio, mynegodd nifer o ymatebwyr unigol y farn bod y rhain yn achosion lle nad oedd llawer o gyfle i gyfaddawdu a bod cyfryngu'n gallu ffafrio'r hawlydd (cwmni parcio preifat fel arfer) drwy

dybio bod hawliad yn ddilys gan annog negodi. O ran hawliadau tai, gan gynnwys achosion o ddiffyg atgyweirio, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch cymhlethdod cyfraith tai a phwysigrwydd diogelu hawliau a rhwymedigaethau tymor hir partïon, yn ogystal â’r berthynas anghyfartal rhwng landlord a thenant. Awgrymwyd, er y byddai cyfryngu ar ryw ffurf yn ddefnyddiol mewn llawer o achosion tai, nad oedd integreiddio cyfryngu yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd y farn hon yn unfrydol, ac roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylid cynnwys achosion tai, oherwydd manteision integreiddio cyfryngu ym mhroses y llys.

22. Teimlai nifer llai o ymatebwyr y dylid esemptio achosion lle’r oedd cyfryngu neu ddull arall o ddatrys anghydfod wedi’i geisio o’r blaen. Roedd hyn yn aml yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn sicrhau nad oedd integreiddio cyfryngu ym mhroses y llys yn tanseilio’r broses o ddatrys anghydfodau cyn cyflwyno hawliad. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am ddull gweithredu cydgysylltiedig. Awgrymwyd y gellid cyfeirio partïon at unrhyw Ombwdsmon perthnasol neu ddarparwr ADR yn y lle cyntaf.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi’n credu y dylai partïon allu gwneud cais am esemptiadau unigol o’r gofyniad i fynychu cyfryngu, wedi’i asesu fesul achos gan farnwr? Os felly, pam? A pha ffactorau ydych chi’n meddwl y dylid eu hystyried?

23. Teimlai llawer o’r ymatebwyr na ddylai partïon allu gwneud cais am esemptiad unigol i osgoi cyfryngu integredig. Pryder amlwg oedd y byddai’r amser a’r gost a fyddai’n ofynnol i benderfynu ar geisiadau am esemptiad yn wrthgynhyrchiol i’r nod cyffredinol o gynyddu gallu’r llys i ddatrys anghydfodau partïon yn gyflym. Teimlwyd y byddai proses o’r fath yn annog partïon i geisio osgoi cyfryngu – yn enwedig gan nad oes gan lawer o ymgyfreithwyr ddealltwriaeth ddigonol o’r broses na’i manteision. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad oedd y baich o fynychu sesiwn gyfryngu gyda’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn feichus; ac mai bach iawn yw’r risgiau i unigolion o wneud hynny gan fod y setliad drwy gyfryngu yn parhau i fod yn wirfoddol. Awgrymwyd hefyd y gallai’r cyfryngwr fod yn gyfrifol am ddod â’r cyfryngu i ben os credant fod parhau yn amhriodol am unrhyw reswm. Byddai angen i’r dull hwn o beidio â chaniatáu ceisiadau am esemptiad allu darparu ar gyfer ystod addas o addasiadau rhesymol i sicrhau bod pob parti yn gallu cymryd rhan.

24. Ar y llaw arall, awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid caniatáu esemptiadau unigol mewn amgylchiadau cyfyngedig. Nid oedd barn unedig ynghylch beth ddylai’r amgylchiadau hyn fod, ond roedd yr awgrymiadau’n cynnwys achosion lle nad oedd addasiadau rhesymol gofynnol parti ar gael; achosion lle mae un o’r partïon yn berson agored i niwed neu lle nad oes ganddo’r gallu i gymryd rhan; achosion lle mae gwahaniaeth pŵer na ellir ei ddatrys gan y cyfryngwr (gan gynnwys lle mae bygythiadau o drais neu gam-drin wedi bod); achosion lle mae pwynt cyfreithiol wrth

wraidd y mater; achosion lle mae angen rhagor o dystiolaeth; ac achosion, lle nad oes hawliad neu amddiffyniad y gellir ei ddadlau yn rhesymol.

**Cwestiwn 3:** Sut ydych chi'n meddwl y dylem ni asesu a yw parti sy'n gorfod cyfryngu wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r broses gyfryngu?

25. Teimlai nifer sylweddol o ymatebwyr mai'r unig fesur priodol o gydymffurfiad parti â'r gofyniad i gyfryngu oedd a oeddent yn bresennol yn y sesiwn. Teimlai llawer o'r ymatebwyr hyn y byddai cynnal unrhyw ymchwiliad pellach i ddigonolrwydd ymgysylltiad parti yn torri cyfrinachedd hanfodol y broses gyfryngu, yn ogystal â pheryglu parodrwydd parti i ymgysylltu'n agored a'u hyder yn y broses. Cododd ymatebwyr bryderon cryf hefyd ynghylch goblygiadau ymarferol polisi o'r fath, yn enwedig y potensial ar gyfer ymgyfreitha lloeren sy'n deillio o barti yn herio asesiad o'i ymgysylltiad. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai unrhyw ymgyfreitha o'r math hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryngwr weithredu fel tyst i'r anghydfod, gan beryglu eu didueddrwydd ymhellach.

26. Teimlai ymatebwyr eraill mai'r ffordd fwyaf priodol o asesu ymgysylltiad parti oedd drwy adroddiad a gynhyrchwyd gan y cyfryngwr. Y prif sbardun ar gyfer y dull hwn oedd yr angen i atal cyfryngu rhag dod yn ymarfer "ticio blychau", a fynychir gan bartïon ond nad oeddent yn wir yn ymgysylltu â chyfryngu fel cyfrwng i hwyluso datrysiad. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai angen canllawiau clir a thryloyw ynghylch yr hyn a oedd yn cynrychioli ymgysylltiad digonol i sicrhau bod partïon yn ymwybodol o'r disgwyliadau. O ran cynnwys y canllawiau hyn, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gryf na ddylid cysylltu ymgysylltu mewn unrhyw ffordd â chanlyniad y cyfryngu neu barodrwydd i dderbyn cynigion setlo. Roedd awgrymiadau ynghylch yr hyn a allai gael ei werthuso gan y cyfryngwr yn seiliedig yn gyffredinol ar y cysyniad o a oedd y partïon wedi gweithredu'n "ddidwyll". Awgrymwyd y gallai hyn gynnwys: a oedd parti wedi manteisio ar y cyfle i egluro eu safbwynt ar yr anghydfod, gan gynnwys darparu unrhyw wybodaeth angenrheidiol; a oeddent wedi gwrando ar farn y parti arall; ac a oeddent wedi cydweithio'n adeiladol ar gynnig a gwerthuso atebion posibl.

**Cwestiwn 4:** Y canlyniadau arfaethedig pan nad yw partïon yn cydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu heb eithriad dilys yw gorchymyn costau niweidiol (gorfod talu holl gostau neu ran o gostau ymgyfreitha'r parti arall) neu ddileu hawliad neu amddiffyniad. Ydych chi'n ystyried credu y sancsiynau arfaethedig hyn yn gymesur a pham?

27. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn cytuno bod y sancsiynau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn gymesur; roedd hyn yn cynnwys sancsiynau cost a dileu hawliad neu

amddiffyniad parti. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hyn y byddai'r broses yn aneffeithiol heb sancsiynau clir ac ystyrlon. Pwysleisiodd sawl un y byddai dileu'n gyson â'r canlyniadau a gymhwysir fel arfer pan fydd parti'n methu â chydymffurfio â rheol llys, ac yn unol â phrif amcan y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Teimlai eraill fod y sancsiynau arfaethedig yn briodol o ystyried yr effeithiau andwyol ar y parti arall o beidio â chael y cyfle i ddatrys eu hachos drwy gonsensws. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr hyn sylw at y ffaith y byddai angen defnyddio'r sancsiynau hyn yn llym ac yn gyson. O ganlyniad, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid defnyddio sancsiynau'n awtomatig; er bod eraill yn anghytuno â'r safbwynt hwn ac yn ffafrio mwy o ddisgresiwn barnwrol.

28. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai unrhyw sancsiynau am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu yn amhriodol. Roedd hyn yn aml yn cael ei ategu gan gred y dylai cyfryngu barhau'n wirfoddol yn hytrach na dod yn rhan integredig o broses y llys. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai unrhyw sancsiynau'n mynd yn groes i'r egwyddor o fynediad at gyfiawnder; cyfeiriodd nifer o ymatebwyr eto at y potensial ar gyfer ymgyfreitha lloeren, pe bai partïon yn gallu ac yn dewis gwneud cais am ryddhad o sancsiynau, gan gynyddu costau ac oedi.

29. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno sancsiynau cost ond yn teimlo y byddai dileu yn rhy llym. Roedd yr ymatebwyr hyn yn aml yn pwysleisio bod gorchmynion costau niweidiol i bartïon yr ystyrir eu bod wedi gwrthod cyfryngu'n afresymol eisoes yn nodwedd sefydledig o broses y llys; mae'r defnydd o ddileu yn yr amgylchiadau hyn yn llai sefydledig. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn cydnabod y byddai effeithiolrwydd ac ymarferoldeb sancsiwn costau yn ansicr o ystyried lefel gyfyngedig y costau y gellir eu hadennill ar gyfer hawliadau a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain.

**Cwestiwn 5:** Dywedwch wrthym os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y cynnig i gyfeirio'n awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain.

30. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn argymell addasiadau i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn gweithredu ar hyn o bryd. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd y dylai apwyntiadau hirach fod ar gael. Teimlid, mewn llawer o achosion, yn enwedig y rhai ar ystod uwch y terfyn o £10,000, efallai na fyddai awr yn ddigon o amser i'r partïon archwilio a chwtogi'r materion sy'n destun anghydfod. Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd y byddai'n werthfawr cynnig opsiwn o gyfryngu wyneb yn wyneb, neu drwy fideogynadledda. Roedd y cynigion ar gyfer sut y gellid ymgorffori'r syniadau hyn yn y gwasanaeth yn cynnwys galluogi ymestyn apwyntiadau cyfryngu yn hyblyg lle'r oedd y partïon yn gwneud cynnydd clir tuag at ddatrys; rhoi cyfleusterau fideo-gynadledda i'r gwasanaeth; a chaniatáu opsiwn i bartïon ddewis defnyddio cyfryngwr trydydd parti allanol.

31. Nododd ymatebwyr hefyd yr angen i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach ddarparu cyflenwad digonol o gyfryngwyr o ansawdd uchel i reoli'r cynnydd a ragwelir yn y baich achosion. Roedd cyflenwad yn cael ei ystyried yn hanfodol i sicrhau bod apwyntiadau ar gael yn rhwydd ac nad oedd risg o oedi o ran gallu partïon i gael mynediad at y gwasanaeth. Ystyriwyd bod hyfforddiant ac ansawdd cyfryngwyr yn flaenoriaeth ar gyfer sicrhau canlyniadau cadarnhaol a boddhad gyda'r gwasanaeth, yn ogystal â chynnal enw da'r proffesiwn cyfryngu.

32. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i gasglu mwy o ddata o fewn GLlTEF i gefnogi dadansoddiad a gwerthusiad trylwyr o'r polisi. Awgrymwyd y dylai'r data hwn fod ar gael i'r cyhoedd i gefnogi'r gwaith ehangach o gasglu tystiolaeth ac ymchwil ar effeithiolrwydd cyfryngu, ac y gallai helpu i lywio'r achos dros unrhyw bosibilrwydd o integreiddio cyfryngu ar gyfer achosion trac cyflym ac amldrac. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cynnwys adborth gan y partïon eu hunain, wedi ei gasglu drwy holiadur ôl-gyfryngu, mewn asesiad o effeithiolrwydd y polisi.

**Cwestiwn 6:** Oes gennych chi brofiad o'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?
**Cwestiwn 7:** Gawsoch chi wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain? Os cawsoch chi wybodaeth, pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth honno?

33. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr brofiad uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach nac wedi derbyn gwybodaeth amdano. Roedd gan rai ymatebwyr brofiad anuniongyrchol neu broffesiynol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn teimlo bod y wybodaeth yn ddigonol ac yn ddefnyddiol. Dywedodd sawl ymatebydd ei fod yn "ddefnyddiol iawn". Holodd nifer o bartïon a oedd y wybodaeth yn ddigon dealladwy i bobl nad oeddent yn weithwyr proffesiynol. Dywedodd rhai y gallai'r wybodaeth fod yn fwy cynhwysfawr ac y dylid egluro'r broses, y manteision ac addasrwydd cyfryngu yn well. Ar ben hynny, er bod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol, mynegodd nifer o ymatebwyr bryder nad oedd y wybodaeth hon bob amser yn cyfateb i brofiad y partïon o'r sesiwn gyfryngu.

**Cwestiwn 8:** Sut gallwn ni wella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr am y gwasanaeth hwn?

34. Cafwyd awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr ynghylch fformat, dosbarthiad a hygyrchedd gwybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach. Roedd cyfran o'r awgrymiadau hyn yn ddamcaniaethol gan nad oedd yr ymatebwyr wedi nodi unrhyw brofiad gyda'r ddarpariaeth wybodaeth bresennol. Mae awgrymiadau penodol yn cynnwys ehangu tudalen bresennol y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ar

GOV.UK a gwella'r esboniad o gyfryngu ar y wefan 'gwneud hawliad llys am arian'. Roedd cytundeb cryf y byddai fideos yn helpu partïon i ddeall y broses yn well. Mae'r fformatau gwybodaeth eraill a awgrymwyd yn cynnwys astudiaethau achos, ffug sesiynau, a Chwestiynau Cyffredin. Argymhellwyd y dylid cyfeirio at adnoddau o'r fath mewn unrhyw ohebiaeth bost, ac y dylent fod yn hygyrch i bartïon agored i niwed a niwrowahanol a siaradwyr Saesneg anfrodorol. Yn ogystal, argymhellodd amryw o ymatebwyr y dylid darparu'r wybodaeth hon yn gynnar ym mhroses y llys ac y dylid ei dosbarthu'n eang, er enghraifft drwy dimau cynghori perthnasol a chanolfannau llys.

35. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid egluro'r broses gyfryngu yn glir ac yn hygyrch. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, sy'n llai tebygol o ddarllen neu ddeall y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Awgrymwyd y dylai'r wybodaeth gynnwys amserlenni clir, hawliau cyfreithiol partïon, trosolwg clir o'u hopsiynau a'u goblygiadau, a'u rhwymedigaethau. Yn benodol, awgrymodd ymatebwyr y dylai partïon wybod beth y dylent ei ddisgwyl a beth a ddisgwylir ganddynt ar bob cam, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfaddawdu. Argymhellodd nifer o ymatebwyr nad oes rheidrwydd ar bartïon i setlo eu hanghydfod, bod y cyfryngwr yn niwtral, nad yw cyfryngu'n ddyfarniad, nad yw partïon yn debygol o gael cynnig popeth y maent yn ei hawlio, ac efallai na fyddant yn gallu siarad yn uniongyrchol â'r ochr arall. Ar ben hynny, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud manteision cyfryngu yn gliriach i unigolion ac i fusnesau, gan gynnwys drwy dynnu sylw at ganlyniadau peidio â datrys anghydfodau drwy gyfryngu. Yn olaf, roedd nifer o ymatebwyr wedi argymell cyfeirio at adnoddau eraill i ganiatáu i bartïon ddatblygu gwell dealltwriaeth o hawliadau sifil a chyfryngu a'u perthynas â'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain – gan gynnwys cynlluniau'r Ombwdsmon ac AdviceNow.

36. Yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn benodol, nododd sawl ymatebydd fod angen gwell ymwybyddiaeth o ddatrys anghydfodau a chyfryngu yn gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys helpu defnyddwyr, rhanddeiliaid yn y diwydiant, busnesau a'r cyhoedd i ddeall yn well sut mae cyfryngu'n gweithio, sut gallant ymgysylltu'n effeithiol ag ef, a beth yw'r manteision.

**Cwestiwn 9:** Pa opsiynau ddylai fod ar gael i helpu pobl sy'n agored i niwed neu sy'n cael trafferth cael gafael ar wybodaeth i gael yr arweiniad sydd ei angen arnynt?

**Cwestiwn 16:** A oes unrhyw gamau y gallai'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain eu cymryd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb at ei wasanaethau, gan ystyried unrhyw anghenion penodol sydd gan grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a defnyddwyr agored i niwed?

*Sylwer: o ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr ymatebion i'r cwestiynau hyn, mae'r themâu i gyd wedi'u cofnodi yma.*

37. Roedd cytundeb cryf y dylid sicrhau bod gan bartïon sy’n agored i niwed fynediad priodol hygyrch i wybodaeth. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd canfod partïon agored i niwed yn gynnar, er mwyn galluogi mynediad o’r fath. Awgrymwyd y gallai adnabod y partïon hyn ddigwydd mewn cyfarfod ymlaen llaw gyda’r cyfryngwr neu drwy set safonol o gwestiynau. Byddai hyn yn caniatáu i bartïon agored i niwed gael cefnogaeth a gwybodaeth briodol am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach. Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd, lle mae brysbennu’n awgrymu na fyddai partïon yn gallu cymryd rhan briodol yn y broses, y dylid ailystyried unrhyw ofyniad i gyfryngu.

38. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid darparu canllawiau cyfryngu mewn amrywiaeth o fformatau i sicrhau eu bod yn hygyrch i’r ystod ehangaf o bobl. Roedd yr argymhellion yn cynnwys defnyddio Saesneg clir, print bras, braille, digidol yn ogystal â fformatau nad ydynt yn ddigidol, fideo a sain, a defnyddio technolegau cynorthwyol lle bo hynny’n bosibl. Roedd ymatebwyr hefyd yn argymell gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch drwy sicrhau ei bod ar gael yn ehangach, gan gynnwys mewn canolfannau iechyd a chynghorau lleol. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i bartïon nad oes ganddynt lawer o fynediad i’r rhyngrwyd na phrofiad o hynny. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn argymell gweithio’n uniongyrchol gyda sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth ac Ombwdsmyn, neu gyfeirio atynt. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael mynediad at gymorth uniongyrchol i bobl os oedd gan bartïon gwestiynau o hyd, er enghraifft dros y ffôn neu drwy sgwrs ar y we.

39. Roedd ymdeimlad cyffredinol y dylai partïon agored i niwed gael mynediad at gymorth ychwanegol er mwyn llywio drwy’r broses gyfryngu. Roedd llawer o ymatebwyr yn argymell cyfeirio at wasanaethau cymorth, fel POhWER, Cymorth Drwy’r Llys, Cyfeillion McKenzie, neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn awgrymu y dylai GLITEF ddarparu cyngor cyfreithiol, cyfieithu, a chymorth arbenigol. Roedd nifer o ymatebwyr wedi argymell teilwra’r profiad cyfryngu ei hun ar sail anghenion parti: caniatáu mwy o amser os oes angen; cynnal cyfryngu dros y ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb; neu gynnig galwad cyn-cyfryngu i bartïon. Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen i gyfryngwyr gael eu hyfforddi’n briodol i adnabod a darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol ac i sicrhau tegwch. Dylai cefnogaeth o’r fath egluro nad yw partïon dan unrhyw bwysau i setlo, gan helpu partïon i ddeall cryfder eu hachos, a dileu unrhyw anghydbwysedd pŵer rhwng partïon, yn enwedig pan fydd ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn gysylltiedig.

40. Roedd un o’r pryderon mwyaf ynghylch mynediad cyfartal at gyfryngu yn ymwneud â’r anghydbwysedd pŵer posibl rhwng partïon, yn enwedig pan mai dim ond un ochr sy’n ymgyfreithiwr drosto’i hun. I’r gwrthwyneb, awgrymodd rhai fod cyfryngu’n lleihau’r posibilrwydd o anghydbwysedd pŵer o’i gymharu â mynd i’r llys. Awgrymodd eraill, fodd bynnag, y gallai gynyddu anghydbwysedd pŵer, yn enwedig ar gyfer achosion o anaf personol neu ddamweiniau diwydiannol. Roedd peth o’r anghydbwysedd ymddangosiadol hwn yn deillio o bartïon nad oedd wedi cael profiad o gyfryngu neu

wasanaethau llys eraill, o'i gymharu â rhai a oedd wedi cael profiad o'r blaen. Y camau a awgrymwyd i osgoi'r cynnydd hwn mewn anghydbwysedd grym oedd cael rhyw fath o ddiogelwch ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, yn ogystal â sicrhau bod yr holl bartïon yn gwybod beth oedd eu hawliau a'u cyfrifoldebau drwy gydol y broses. Roedd hyn yn rhywbeth a godwyd fel tasg bosibl i'r cyfryngwr ond gallai hefyd fod yn rhan o'r cyfathrebu cynnar â phartïon pan maent ar fin cychwyn ar eu taith gyfryngu.

**Cwestiwn 10:** Beth arall ydych chi'n meddwl y gallen ni ei wneud i gefnogi partïon i gymryd rhan effeithiol mewn proses gyfryngu sy'n cael ei chynnig gan y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?

41. Awgrymodd sawl ymatebydd nad yw'r cyfryngu a gynigir drwy'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach yn gyfryngu nodweddiadol. Roeddent yn awgrymu bod cyfryngu nodweddiadol fel arfer yn caniatáu deialog uniongyrchol rhwng partïon, sydd fel arfer yn para mwy nag awr, ac yn caniatáu archwiliad ehangach o anghenion a diddordebau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'n anodd gwella perthynas drwy sgwrs ffôn anuniongyrchol; ac y gall y fformat hwn deimlo'n debyg i ymarfer cyfnewid. Argymhellodd sawl ymatebydd y dylid annog cyfryngu cyn-achos a sicrhau nad yw integreiddio llysoedd yn lleihau'r cymhelliant i ddatrys anghydfodau cyn cychwyn hawliad. Awgrymodd amrywiaeth o ymatebwyr hefyd y gallai partïon ddarparu gwybodaeth i'r cyfryngwr cyn y sesiwn, gan gynnwys sut maen nhw'n teimlo, pa ffeithiau maen nhw'n eu hystyried yn berthnasol, a pha gyfaddawd allai fod iddyn nhw – yn ddelfrydol mewn ffordd sy'n annog meddylfryd cydweithredol yn hytrach na gwrthwynebus – a hynny i gyd yn gallu caniatáu sesiwn gyfryngu fwy effeithiol. Yn ogystal, roedd teimlad cyffredinol na fyddai awr yn ddigonol bob amser, ac y dylid cael cyfle i gael amser ychwanegol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach elwa o ragor o integreiddio i wasanaethau llys ar-lein.

**Cwestiwn 11:** A oes angen achrediad cryfach, neu reoliad newydd, ar gyfer y sector cyfryngu sifil? Os felly, beth – os o gwbl – ddylai rôl y llywodraeth fod?

42. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn dymuno cael mwy o reoleiddio a/neu achredu yn y sector petai'r llywodraeth yn cyflwyno cyfryngu integredig ar gyfer hawliadau gwerth uwch gan ddefnyddio cyfryngwyr allanol. Pwysleisiodd nifer y byddai angen gwneud hyn er mwyn lleihau'r risgiau sy'n wynebu partïon, gan gynnwys cyfryngwyr sy'n dylanwadu'n ormodol arnynt i ildio, torri cyfrinachedd, neu ddarparu gwasanaeth gwael yn gyffredinol. Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer

gofynion rheoleiddio yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys mynychu cyrsiau cymeradwy. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys rheoleiddio i orfodi yswiriant, prosesau cwyno, yn ogystal â glynu wrth ganllawiau moesegol a/neu god ymddygiad. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai'r system hunanreoleiddio bresennol fod yn aneglur i bartïon a'i gwneud yn anodd iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch dewis cyfryngwr gan fod safonau gwahanol rhwng ei gyrff proffesiynol gwirfoddol. Un argymhelliad cyffredin oedd i'r llywodraeth gynnal ei rhestr ganolog ei hun o gyrff achredu cymeradwy a/neu gyfryngwyr achrededig i sicrhau y gallai partïon ddod o hyd i gyfryngwyr addas.

43. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r cyrff proffesiynol presennol yn y sector barhau i chwarae rhan ganolog yn y dyfodol. Roeddent yn tynnu sylw at y ffaith bod y cyrff hyn eisoes yn: pennu ac yn gorfodi gofynion ar gyfer eu haelodau o ran hyfforddiant, moeseg, ymddygiad ac yswiriant; yn hwyluso datblygu arbenigedd cyfryngu; ac anaml iawn y byddant yn derbyn cwynion. Am y rhesymau hyn, awgrymodd sawl ymatebydd nad oedd angen newid y system hunanreoleiddio bresennol o gwbl, hyd yn oed petai datrys anghydfod integredig yn cael ei gyflwyno ar gyfer hawliadau gwerth uwch. Yr oedd ymatebwyr eraill, fodd bynnag, am i'r llywodraeth ysgwyddo rôl fwy cyfarwyddol. Awgrymwyd y gallai'r llywodraeth annog, ond nid gorfodi, y cyrff presennol i gytuno ar safonau gofynnol. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid y llywodraeth yn cyflwyno "achrediad gorfodol" lle mai dim ond cyfryngwyr sifil sydd wedi'u hachredu gan gorff sy'n bodoli eisoes fyddai'n cael cyfryngu achosion sy'n cael eu cyfeirio gan y llysoedd.

**Cwestiwn 12:** Pa sefydliad(au) presennol y gellid eu cydnabod yn ffurfiol fel y corff achredu ar gyfer y proffesiwn cyfryngu sifil a pham?

44. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod y Cyngor Cyfryngu Sifil mewn sefyllfa dda i gael ei gydnabod fel y corff achredu ar gyfer y sector. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith mai nhw yw'r corff proffesiynol mwyaf blaenllaw ar gyfer cyfryngu sifil yn unig, bod ganddynt hanes cryf o bennu safonau, a'u bod yn fasnachol annibynnol gan nad ydynt yn darparu gwasanaethau cyfryngu. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth sylweddol hefyd i hwyluso cydweithio rhwng nifer o gyrff proffesiynol yn y sector yn lle hynny. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau y gallai grŵp o gyrff ddatblygu safon ar y cyd a goruchwylio system achredu gorfodol. Roedd ymdeimlad y gallai dull gweithredu aml-gorff, yn hytrach na chydnabod un corff, dawelu meddwl y cyhoedd bod cyfryngwyr cymwys yn cyrraedd safon sylfaenol heb amharu ar luosogrwydd presennol y sector. Disgrifiwyd manteision dull gweithredu aml-gorff fel cynnal cystadleuaeth yn y farchnad a chaniatáu i'r cyrff barhau i reoleiddio eu haelodau eu hunain, gan gynnwys drwy unrhyw safonau mwy arbenigol.

45. Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i sefydliadau eraill y tu allan i'r sector cyfryngu gael eu cydnabod yn ffurfiol. Soniodd rhai ymatebwyr y gallai'r rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol presennol ymgymryd â'r rôl o ystyried y nifer uchel o weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n ymarfer sy'n cyfryngu; enw da cyfryngu fel gweithgaredd lled-farnwrol; a phrofiad y cyrff hyn o reoleiddio. Roedd cefnogaeth hefyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros bennu a sicrhau safonau, boed hynny ar gyfer cyfryngu sifil yn benodol neu ar gyfer datrys anghydfodau'n ehangach, er mwyn hyrwyddo eglurder ac ymddiriedaeth i bartïon. Awgrymwyd ymhellach y dylai'r llywodraeth benodi Gwasanaeth Achredu'r DU, y corff achredu cenedlaethol a gydnabyddir gan y llywodraeth, i oruchwylio achrediad yn erbyn safon cyfryngu a bennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Cwestiwn 13:** Beth yw eich barn am werth Safon genedlaethol ar gyfer cyfryngu? Pa grwpiau neu unigolion ddylai fod yn gysylltiedig â datblygu Safon o'r fath?

46. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweld gwerth mewn safon gyfryngu genedlaethol, gan awgrymu y gallai godi proffil y proffesiwn, pennu cymwyseddau craidd ar gyfer cyfryngwyr, a helpu i arwain y cyhoedd i ddod o hyd i gyfryngwyr priodol. Roedd barn hefyd y gallai leihau anghysondeb cyfryngu, gan gynnwys lle nad yw cyfryngwyr yn cofrestru â chyrff proffesiynol, neu lle mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu nad yw corff proffesiynol yn sicrhau ansawdd. Awgrymodd rhai y gallai'r safon genedlaethol hon gynnwys nod barcud i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfryngu da; ac y dylai unrhyw safon o'r fath gael ei llywio gan arbenigedd eang, gan gynnwys gan y sector, y byd academaidd, grwpiau defnyddwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

47. Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr eraill sylw at anawsterau wrth ddatblygu safon o'r fath. Mynegasant bryderon y byddai unrhyw ymgais i safoni prosesau, yn enwedig cod ymddygiad, mor gyffredinol fel ei fod yn ddiystyr ac yn anorfodadwy. Roedd eraill o'r farn bod y trefniadau cofrestru presennol yn y sector yn ddigonol ac y byddai creu safon genedlaethol ar wahân yn dyblygu'r trefniadau aelodaeth presennol. Pryder arall oedd y gallai safon gyffredin, yn enwedig un a ddatblygwyd y tu allan i'r sector gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, fod yn rhy ragnodol ac na fyddai'n hwyluso hyblygrwydd i gyfryngwyr o ran sut maent yn arwain partïon i ddod i benderfyniad. Un sylw cyffredin oedd y byddai safon genedlaethol yn ddiangen gan nad diffyg safonau oedd yr her yn y sector, ond y gall cyfryngwyr ddewis eu hanwybyddu drwy beidio â chofrestru gyda chorff proffesiynol.

**Cwestiwn 14:** Yng nghyd-destun cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu mewn achosion sifil y tu hwnt i hawliadau bychain, a oes unrhyw risgiau os na fydd y llywodraeth yn ymyrryd yn y gwaith o achredu neu reoleiddio cyfryngwyr sifil?

48. Y prif risg y soniodd ymatebwyr ynghylch y llywodraeth yn peidio ag ymyrryd oedd na fyddai unrhyw ofyniad o hyd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant cyfryngu cyn dechrau ymarfer fel cyfryngwr. Ymysg yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi ymyrraeth gan y llywodraeth, roedd ymdeimlad y byddai unrhyw gynllun cyfryngu integredig ar gyfer hawliadau gwerth uwch yn cymell pobl i fachu ar y cyfle i ymuno â'r farchnad. Dywedodd llawer y gallai hyn arwain at wasanaeth anghyson gan y byddai cyfryngwyr gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth yn cyfryngu achosion a gyfeiriwyd gan lys ochr yn ochr ag eraill heb unrhyw hyfforddiant na goruchwyliaeth. Awgrymwyd y gallai gwasanaeth gwael gan gyfryngwyr heb eu hachredu erydu hyder yn y broses gyfryngu a lleihau ymgysylltiad, neu hyd yn oed achosi niwed ariannol a meddyliol uniongyrchol i bartïon, gan ostwng cyfraddau llwyddiant a threchu pwrpas datrys anghydfod integredig.

49. Risg arall a godwyd gan ymatebwyr oedd y gallai'r system gyfryngu bresennol fod yn rhy gymhleth i bartïon oni bai fod canllawiau annibynnol yn cael eu rhoi ar waith. Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at ormod o wahanol gynlluniau achredu yn y sector a chronfa fawr o gyfryngwyr ar gael i weithio. Roeddent felly'n awgrymu y gallai partïon sy'n cael eu cyfeirio at gyfryngu gan y llysoedd – yn enwedig partïon dibrofiad gydag anghydfodau cyffredinol – ei chael hi'n anodd penderfynu sut i ddewis cyfryngwr a hyd yn oed ceisio cael eu heithrio o gyfryngu'n gyfan gwbl o ganlyniad. Cafwyd sylwadau yn tynnu sylw at sut yr oedd y llywodraeth wedi gallu lliniaru'r risg hon, a chreu cydnabyddiaeth ac ymddiriedaeth mewn cyfryngu teuluol, drwy gydnabod achrediad y Cyngor Cyfryngu Teuluol ar gyfer Cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu (MIAMs).

50. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn awgrymu bod diffyg ymyriad yn arwain at risgiau isel yn unig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn canolbwyntio ar sut na fyddai'n orfodol setlo'r anghydfodau ac y byddai'r partïon yn mynd yn ôl i'r llys pe baent yn anfodlon â'r cyfryngu. Awgrym arall oedd y byddai mecanweithiau'r farchnad yn cael gwared ar gyfryngwyr annigonol yn dilyn adolygiadau gwael gan bartïon. Dywedodd eraill y byddai'r system hunanreoleiddio bresennol yn lliniaru'r risg o gyfryngu gwael gan fod cyflenwad digonol o gyfryngwyr sefydledig sydd wedi'u hyfforddi'n dda eisoes yn ymarfer. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai ymyriad gan y llywodraeth yn y sector, yn enwedig drwy gyflwyno gofynion rheoleiddio, fod mewn perygl o gyfyngu ar y cyflenwad o gyfryngwyr o'i gymharu â'r galw, gan arwain at gostau uwch i bartïon.

**Cwestiwn 15:** Bydd rhai cyfryngwyr hefyd yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol, neu weithwyr proffesiynol eraill ac felly'n ddarostyngedig i reoliadau gan y rheoleiddiwr cymeradwy perthnasol e.e. bydd twrneiod sy'n cynnig gwasanaeth cyfryngu eisoes yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. A ddylai cyfryngwyr sydd eisoes yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol neu weithwyr proffesiynol eraill gael eu heithrio rhag unrhyw ofynion rheoleiddio neu achredu ychwanegol ar gyfer eu gweithgareddau cyfryngu?

51. Roedd rhai ymatebwyr o blaid eithrio gweithwyr proffesiynol rheoledig yn llawn rhag unrhyw ofynion newydd ar gyfer cyfryngwyr. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r dull hwn yn canolbwyntio ar weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n ymarfer, gan ddadlau eu bod eisoes yn cael eu goruchwylio gan y rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol y mae angen lefelau uchel o ymddygiad proffesiynol arnynt. Roedd pryderon y gallai gosod gofynion cyfryngu ychwanegol arnynt gynyddu eu costau ac o bosibl greu gwrthdaro rhwng dyletswyddau proffesiynol sy'n ddyledus i wahanol reoleiddwyr.

52. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai esemptiadau rhannol fod ar waith ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hyn. Roedd yr ymatebion hyn yn ystyried y gellid cyflwyno esemptiadau lle roedd safonau proffesiynol presennol yn gorgyffwrdd ag unrhyw ofynion newydd, fel hyfforddiant ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau neu ddilyn cod ymddygiad/moeseg. Awgrym cysylltiedig oedd y gallai rheoleiddwyr y proffesiwn cyfreithiol presennol fodloni unrhyw ofynion newydd eu hunain drwy gyflwyno cymwysterau cyfryngu, hyfforddiant neu oruchwyliaeth ychwanegol i'w haelodau.

53. Nid oedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi unrhyw esemptiadau o gwbl. Ymysg yr ymatebwyr hyn, roedd teimlad cryf bod cyfryngu sifil yn broffesiwn ynddo ei hun; bod ganddo broses fwy cydweithredol nag y mae llawer o gyfreithwyr yn gyfarwydd â hi; a bod angen hyfforddiant penodol ar gyfryngwyr i fod yn effeithiol. Dywedodd nifer o ymatebwyr na ddylai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n cyfryngu fel rhan o'u portffolios drwy "gyd-ddigwyddiad" gael eu trin yn wahanol i'r rheini sy'n dechrau cyfryngu o gefndiroedd eraill. Nododd eraill y gallai caniatáu esemptiadau achosi dryswch i bartïon, gan roi'r cyfrifoldeb arnynt hwy i lywio drwy wahanol ofynion rheoleiddio ac esemptiadau i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa fath o gyfryngwr i'w ddewis. Pryder cysylltiedig oedd y gallai caniatáu esemptiadau ar gyfer gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n ymarfer greu camsyniadau bod cyfryngwyr eraill nad ydynt wedi'u hyfforddi'n gyfreithiol yn llai cymwys. Yn olaf, dywedodd ymatebwyr yn y grŵp hwn y byddai gofynion cyson ar gyfer pob cyfryngwr yn rhoi mwy o hygrededd i'r sector ac yn hyrwyddo cyfryngu fel gwasanaeth ar wahân i'r proffesiynau cyfreithiol traddodiadol.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

54. Bydd Asesiad Effaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cynlluniau hyn yn dilyn maes o law. Gellir gweld yr asesiad effaith cychwynnol yn Increasing the use of mediation in the civil justice system - GOV.UK (www.gov.uk).

## Cydraddoldeb

55. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), yn darparu fel a ganlyn:

56. “Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf [2010] hon;

(b) datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu;

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.”

57. Mae angen ystyried rhoi 'sylw dyledus' yng nghyd-destun y naw "nodwedd warchodedig" o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

**Gwahaniaethu uniongyrchol**

58. Ein hasesiad cychwynnol, a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, oedd ei bod yn annhebygol y byddai cyfryngu integredig yn gwahaniaethu'n uniongyrchol. Ychydig iawn o ymatebwyr a gyfeiriodd at wahaniaethu uniongyrchol. Felly, ein hasesiad o hyd yw nad oes llawer o risg o wahaniaethu uniongyrchol – mae'r cynigion yr un mor berthnasol i bawb.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

59. Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai integreiddio cyfryngu arwain at wahaniaethu anuniongyrchol. Yn benodol, awgrymwyd y dylai partïon sy'n agored i niwed oherwydd eu nodweddion gwarchodedig gael eu cefnogi'n ddigonol drwy gydol y broses, er enghraifft drwy ddarparu addasiadau rhesymol fel apwyntiadau wyneb yn wyneb.

60. Nododd nifer o ymatebwyr efallai nad oes gan rai partïon lythrennedd digidol ac nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd i gael gwybodaeth. Mae gallu digidol a mynediad yn tueddu i fod yn is ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn – sy'n ddwy nodwedd warchodedig. Felly, bydd y llwybr papur presennol yn ôl ac ymlaen o gyfryngu yn parhau, gan gynnwys y llythyr cadarnhau, sy'n cynnwys arweiniad ar beth i'w ddisgwyl wrth gyfryngu a sut i baratoi. Bydd hwn ar gael mewn fformatau eraill.

61. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai partïon sydd â gallu cyfyngedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg fod yn llai abl i gymryd rhan mewn cyfryngu (bydd cyfryngwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod ar gael). Bydd GLlTEF yn parhau i ddarparu cyfieithwyr yn ôl yr angen.

62. Ar wahân i anabledd, sy'n cael sylw ar wahân isod, ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch nodweddion gwarchodedig eraill. O ystyried y mesurau lliniaru sydd ar gael, rydym yn ystyried mai bach iawn yw'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol; bydd y gwerthusiad ar ôl gweithredu'r polisi yn asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig o'i gymharu â'r canlyniadau i ddefnyddwyr eraill.

### Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

63. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at yr angen i ddarparu addasiadau priodol, fel ymestyn yr apwyntiad cyfryngu; cynnal yr apwyntiad wyneb yn wyneb; neu ddarparu dogfennau mewn fformatau eraill. Bydd yr angen am addasiadau rhesymol yn cael ei gofnodi a bydd GLlTEF yn parhau i ystyried ceisiadau fesul achos.

64. Soniodd nifer o ymatebwyr am y risg o wahaniaethu anuniongyrchol o ran partïon â gwahanol lefelau o alluoedd gwybyddol ac anableddau dysgu gan y gallent fod o dan anfantais mewn trafodaethau ynghylch setlo. Ar gyfer achosion o'r fath, ac achosion eraill sy'n ymwneud â nodweddion bregus, bydd GLlTEF yn adeiladu ar ei bolisi diogelu ehangach i ddatblygu protocol diogelu a bregusrwydd yn benodol ar gyfer cyfryngu.[11] Bydd y protocol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer dod â'r broses gyfryngu i ben os bydd pryderon ynghylch diogelu neu os na fydd addasiadau rhesymol eraill ar gael. Os bydd

[11] https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-in-hmcts/hmcts-safeguarding-policy

angen, gellir dod â'r broses i ben cyn yr apwyntiad. Byddai sesiwn o'r fath yn cael ei chofnodi fel 'heb ei setlo,' yn hytrach na'i gweld fel methiant i ymgysylltu gan y naill barti neu'r llall. Ni ddylai cyfryngwyr byth roi pwysau i setlo. Mae cyfryngwyr yn derbyn hyfforddiant ar gefnogi partïon sydd ag anghenion ychwanegol. Fel holl staff GLlTEF, maent yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu ac addasiadau rhesymol. Yn ogystal, mae'r gwerthusiad o'r model cyfryngu 'optio allan' (yn hytrach na 'optio i mewn') yn awgrymu rhai ffyrdd y mae anghydbwysedd pŵer eisoes yn cael sylw. Roedd adborth gan ddefnyddwyr yn cynnwys eu bod yn "hoffi ei fod yn rhoi elfen o arwahanrwydd oddi wrth y parti arall yr oeddent mewn anghydfod â nhw." Mae'r gwerthusiad hefyd yn adrodd bod "cyfryngwyr wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu clywed yn y broses."[12]

65. Os nad yw partïon wedi cydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu oherwydd eu hanabledd, bydd barnwyr yn gallu ystyried amgylchiadau lliniarol o'r fath wrth benderfynu ar sancsiynau am beidio â bod yn bresennol.

### Aflonyddu ac erledigaeth

66. Cyn yr ymgynghoriad, yr asesiad cychwynnol oedd na theimlwyd bod risg o aflonyddu nac erledigaeth o ganlyniad i'r cynigion. Nid oedd ychwaith unrhyw adborth na thystiolaeth o'r ymgynghoriad i newid y casgliad hwn. Bydd y protocol diogelu a bregusrwydd ar gyfer cyfryngu yn darparu fframwaith ar gyfer dod â'r broses gyfryngu i ben pan fo pryderon ynghylch diogelu.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal

67. Ein hasesiad cychwynnol oedd bod y cynigion yn rhoi cyfle pwysig i hyrwyddo cyfle cyfartal yng nghyd-destun cefnogi pob parti mewn anghydfod hawliadau bychain i gael mynediad at apwyntiad cyfryngu am ddim, beth bynnag fo'r nodweddion gwarchodedig. Roedd rhai ymatebwyr yn ategu'r asesiad hwn, gan awgrymu y gallai cynyddu'r defnydd o gyfryngu hyrwyddo cydraddoldeb gan fod y cyfryngwr mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ychwanegol yn ystod yr apwyntiad.

### Meithrin perthynas dda

68. Yr asesiad cychwynnol oedd y bydd cyfryngu integredig yn cefnogi partïon i ddatrys eu hanghydfodau drwy gonsensws, a bydd y gofynion yn berthnasol beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig. Bydd y cynigion yn lleihau anghydfodau hirfaith rhwng partïon ac maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar feithrin perthynas dda. Nid oedd unrhyw awgrym gan ymatebwyr i'r gwrthwyneb.

---

[12] HMCTS opt out mediation evaluation report - GOV.UK (www.gov.uk).

**Gwerthuso**

69. Bydd y gwerthusiad ar ôl integreiddio cyfryngu ym mhroses y Llys Sirol yn cynnwys asesu effaith y polisi ar bartïon â nodweddion gwarchodedig.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

70. Bydd gofynion iaith yn cael eu cofnodi cyn apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bach a bydd cyfryngwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael (fel y maent eisoes ar gyfer y gwasanaeth presennol).

71. Mae fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1093684/dispute-resolution-welsh.pdf.

72. Mae fersiwn Saesneg o'r ymateb hwn gan y llywodraeth ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/increasing-the-use-of-mediation-in-the-civil-justice-system.

# Casgliad a'r camau nesaf

73. Hoffai'r Llywodraeth ddiolch i'r holl ymatebwyr am ymgysylltu â'n cynigion i alluogi datrys anghydfodau'n gyflym, yn gost-effeithiol ac yn hyblyg i bawb. Fel y nodwyd uchod, ein targed cychwynnol yw gweithredu cyfryngu integredig ar gyfer pob hawliad penodol am arian a gychwynnir drwy'r drefn safonol ac a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain yn ystod tymor y Senedd hon. Ein nod yw i hyn fod yn sail ar gyfer ymestyn y polisi i bob hawliad bach safonol yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi'r manylion gweithredu a'r amseroedd dros y misoedd nesaf. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r sector cyfryngu i sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu o ansawdd uchel, fforddiadwy ac atebol ar gael.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae’r egwyddorion sydd i’w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Isod ceir rhestr o sefydliadau a oedd yn nodi eu bod yn cytuno i gael eu cynnwys mewn rhestr gyhoeddus o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, yn ogystal â sefydliadau a gyhoeddodd eu hymateb yn gyhoeddus. Nid yw ymatebwyr unigol wedi'u rhestru. Cawsom gyfanswm o 134 o ymatebion.

1. ACAS
2. APIL
3. Ashburnham Cameron Partnership
4. Cymdeithas Yswirwyr Prydain
5. AX
6. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Bart's
7. Bevan Brittan LLP
8. Calm Mediation
9. Prifysgol Eglwys Crist Caergaint
10. Capsticks LLP
11. CEDR
12. Cyngor Cyfryngu Sifil
13. Is-bwyllgor Sifil Cyngor Barnwyr Cylchdaith EF
14. Claims Portal Limited
15. Ystafell y Clercod
16. Colman Coyle Ltd
17. Cynghrair Osgoi Gwrthdaro
18. David Woodhouse Contracts Specialist
19. DisputesEfiling
20. Essential Mediation Service
21. Essential Mediation Solutions Ltd
22. Fenwick Elliott LLP
23. Focus Civil Mediation
24. FOIL, Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant
25. Gateley Vinden
26. Generation Rent
27. GT Mediation
28. Herbert Smith Freehills LLP
29. Hill Dickinson LLP
30. Independent Mediators
31. International Dispute Resolution and Risk Management UK Centre
32. IPOS Mediation
33. J E Baring Ltd
34. Joanne Phillips Mediation
35. JUSTICE

36. Keoghs
37. Latitude Mediation
38. Law for Life
39. Lyons Davidson
40. Mackay
41. Mediator Academy
42. Mediator Network
43. Prifysgol Middlesex
44. Cymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Modur
45. Prifysgol Newcastle
46. Northwest Mediation
47. Paragon Mediation
48. ProMediate (UK) Ltd
49. Registry Trust
50. Renewable Energy Assurance Ltd
51. Reynolds Porter Chamberlain LLP
52. Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
53. Cyngor Sefton
54. SME Alliance LTD
55. Cymdeithas y Cyfryngwyr
56. Cymdeithas y Cyfryngwyr a Phrosiect Cyfryngu am Ddim
57. Cyngor y Bar
58. Cymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain
59. The Dispute Service Ltd
60. Cymdeithas y Cyfreithwyr
61. Yr Ombwdsmon Pensiynau
62. Yr Ombwdsmon Eiddo
63. Transportation Claims Ltd
64. Unity Street Chambers
65. Venn Mediation UK
66. Wensum Mediation
67. Wilberforce Chambers

E02946684
ISBN 978-1-5286-4359-7